

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

- 1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio
Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration
- 2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau
Questions to the Minister for Enterprise, Innovation and Networks
- 5 Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau Heblaw am Fusnes
Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio Questions to the Minister for Social Justice and Regeneration

Tai Fforddiadwy Affordable Housing

Q12 Mick Bates: Will the Minister make a statement on what action she has taken to solve the affordable housing crisis in Wales? OAQ0707(SJR)

C12 Mick Bates: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd ganddi i ddatrys problem tai fforddiadwy yng Nghymru? OAQ0707(SJR)

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): Following the 2004 spending review, the budget for the social housing grant programme will increase progressively to £96.4 million by 2007-08. The three years to 2007-08 will see around £400 million available for affordable housing in Wales as private finance is raised to supplement the social housing grant.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Yn dilyn yr adolygiad o wariant yn 2004, bydd y gyllideb ar gyfer y rhaglenni grant tai cymdeithasol yn cynyddu'n raddol i £96.4 miliwn erbyn 2007-08. Yn ystod y tair blynedd hyd at 2007-08, bydd tua £400 miliwn ar gael ar gyfer tai fforddiadwy yng Nghymru wrth i arian preifat gael ei godi i ychwanegu at y grant tai cymdeithasol.

Tlodi Plant Child Poverty

Q13 Gwenda Thomas: Will the Minister make a statement on child poverty in Wales? OAQ0719(SJR)

C13 Gwenda Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am dlodi plant yng Nghymru? OAQ0719(SJR)

Edwina Hart: Tackling child poverty is a fundamental component of our broader

Edwina Hart: Un elfen sylfaenol yn ein strategaeth ehangach i wella ansawdd bywyd

strategy to improve quality of life and extend opportunity to every community in Wales. We have a significant number of policies and programmes in place and planned across the Assembly Government aimed at eradicating child poverty.

ac ehangu cyfleoedd i bob cymuned yng Nghymru yw'r gwaith o fynd i'r afael â thlodi plant. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad nifer fawr o bolisiau a rhaglenni wedi'u sefydlu ac wedi'u cynllunio i ddileu tlodi plant

Prinder Tai Fforddiadwy The Shortfall of Affordable Housing

Q14 David Melding: Will the Minister make a statement on measures taken to address the shortfall of affordable housing in Wales? OAQ0699(SJR)

C14 David Melding: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r prinder tai fforddiadwy yng Nghymru? OAQ0699(SJR)

Edwina Hart: In addition to the increased resources we are providing for the social housing grant programme, we consulted last year upon a comprehensive package of measures. We have just published the finished version of our local housing market assessment guide and will be issuing the remaining parts of the package later this month.

Edwina Hart: Yn ogystal â'r adnoddau ychwanegol yr ydym yn eu darparu ar gyfer y rhaglen grant tai cymdeithasol, y llynedd cynhaliwyd proses ymgynghori ar becyn cynhwysfawr o fesurau. Yr ydym newydd gyhoeddi fersiwn orffenedig ein canllaw asesu ar gyfer y farchnad dai leol, a byddwn yn cyhoeddi gweddill y pecyn yn ddiweddarach y mis hwn.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau Questions to the Minister for Enterprise, Innovation and Networks

Hyrwyddo a Chynyddu'r Defnydd o Gludiant Cyhoeddus Actions to Promote and Increase the Usage of Public Transport

Q7 Karen Sinclair: What action is the Minister taking to promote and increase the usage of public transport in Wales? OAQ0884(EIN)

C7 Karen Sinclair: Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o gludiant cyhoeddus yng Nghymru? OAQ0884(EIN)

The Minister for Enterprise, Innovation and Networks (Andrew Davies): My concessionary fares policy has helped to turn around the long-term decline in the bus industry. We are now managing the rail franchise, which gives us the means to better focus spending on Wales's rail needs. Engaging our partners and stakeholders through regional transport planning will better co-ordinate transport networks.

Y Gweinidog dros Fenter, Arloesi a Rhwydweithiau (Andrew Davies): Mae fy mholisi tocynnau mantais wedi helpu i wrthdroi'r dirywiad hirdymor yn y diwydiant bysiau. Yn awr, yr ydym yn rheoli masnachfaint y rheilffyrdd, sy'n golygu y gallwn ganolbwyntio mwy ar wario ar wella rheilffyrdd Cymru. Drwy gydweithio â'n partneriaid a'n rhanddeliaid wrth gynllunio trafndiaeth ranbarthol, gallwn greu rhwydweithiau trafndiaeth mwy cyd-gysylltiedig.

Rhaglenni Cymorth i Fusnesau Business Support Programmes

Q8 Michael German: Will the Minister make a statement on business support

C8 Michael German: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am raglenni cymorth i fusnesau

programmes in Wales? OAQ0874(EIN)

yng Nghymru? OAQ0874(EIN)

Andrew Davies: Through programmes such as general support for business, local supplier development and the knowledge bank for business, the Welsh Assembly Government continues to invest in improving the environment for business in Wales, and in the competitiveness of Welsh businesses, in accordance with our strategy, set out in 'Wales: A Vibrant Economy'.

Andrew Davies: Drwy raglenni fel cymorth cyffredinol i fusnesau, datblygu cyflenwyr lleol a chreu cronfa wybodaeth i fusnesau, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn parhau i fuddsoddi yn y gwaith o wella'r amgylchedd busnes yng Nghymru, a gwneud busnesau Cymru yn fwy cystadleuol, yn unol â'r strategaeth a amlinellwyd yn yr adroddiad 'Cymru: Economi sy'n Ffynnu'.

Gwelliannau i'r Rheilffyrdd (Canolbarth a Gorllewin Cymru) Rail Improvements (Mid and West Wales)

Q9 Lisa Francis: Will the Minister make a statement on rail improvements in mid and west Wales? OAQ0831(EIN)

C9 Lisa Francis: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am welliannau i'r rheilffyrdd yn y Canolbarth a'r Gorllewin? OAQ0831(EIN)

Andrew Davies: Several improvements have already been delivered, which include a new early-morning service into Aberystwyth from Birmingham, Manchester services extended to Swansea and Carmarthen hourly, a Sunday service on the Heart of Wales line, and eliminating unsafe crossings on the Cambrian line.

Andrew Davies: Gwelwyd llawer o welliannau eisoes, gan gynnwys gwasanaeth ben bore i Aberystwyth o Birmingham, ymestyn gwasanaethau i Fanceinion o Abertawe a Chaerfyrddin bob awr, a gwasanaeth ar ddydd Sul ar reilffordd Calon Cymru, gan ddileu croesfannau peryglus ar reilffordd Cambrian.

Pobl sy'n Economaidd Anweithgar (Canol De Cymru) People who are Economically Inactive (South Wales Central)

Q10 David Melding: How many people of employment age are economically inactive in South Wales Central? OAQ0863(EIN)

C10 David Melding: Faint o bobl o oed gweithio sy'n economaidd anweithgar yng Nghanol De Cymru? OAQ0863(EIN)

Andrew Davies: According to the local labour force survey, there were 95,000 economically inactive people of working age living in South Wales Central in 2004, which was down 13,000, or 12 per cent, since 2001. Wales as a whole has seen a 6 per cent reduction over this period.

Andrew Davies: Yn ôl yr arolwg gweithlu lleol, yr oedd 95,000 o bobl o oed gweithio yn economaidd anweithgar yng Nghanol De Cymru yn 2004, sef 13,000 neu 12 y cant yn llai na'r ffigur ar gyfer 2001. Bu gostyngiad o 6 y cant yn ystod y cyfnod hwn drwy Gymru gyfan.

Cynnydd Rhaglen Amcan 1 (Y Cymoedd) The Progress of the Objective 1 Programme (The Valleys)

Q11 Lynne Neagle: Will the Minister make a statement on the progress of the Objective 1 programme in the Valleys? OAQ0842(EIN)

C11 Lynne Neagle: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gynnydd rhaglen Amcan 1 yn y Cymoedd? OAQ0842(EIN)

Andrew Davies: At the end of April 2006, more than £260 million of Objective 1 funding had been committed to more than 500 local projects in the south Wales Valleys (Blaenau Gwent, Bridgend, Caerphilly,

Andrew Davies: Ddiwedd mis Ebrill 2006, yr oedd dros £260 miliwn o arian Amcan 1 wedi'i ymrwymo i dros 500 o brosiectau lleol yng Nghymoedd y de (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful,

Merthyr Tydfil, Neath Port Talbot, Rhondda Cynon Taff and Torfaen). These local projects represent a total area project investment of over £650 million.

Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf a Thor-faen). At ei gilydd, buddsoddiwyd dros £650 miliwn mewn prosiectau lleol yn yr ardal.

Ffigurau GDP Eurostat Eurostat GDP Figures

C12 Ieuan Wyn Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y mae ffigurau GDP Eurostat yn effeithio ar bolisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru? OAQ0870(EIN)

Q12 Ieuan Wyn Jones: Will the Minister make a statement on how Eurostat GDP figures impact on Welsh Assembly Government policies? OAQ0870(EIN)

Andrew Davies: The figures demonstrate the effectiveness of the Welsh Assembly Government's policies in improving the performance of the Welsh economy. They will not impact on the qualification of west Wales and the Valleys for EU structural funds over the period 2007-13.

Andrew Davies: Mae'r ffigurau'n dangos pa mor effeithiol yw polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru o ran gwella perfformiad economi Cymru. Ni fyddant yn effeithio ar allu gorllewin Cymru a'r Cymoedd i gymhwyso ar gyfer cronfeydd strwythurol yr UE yn ystod y cyfnod 2007-13.

Grant Trafnidiaeth (Dinas a Sir Abertawe) Transport Grant (City and County of Swansea)

Q13 Peter Black: Will the Minister make a statement on the amount of transport grant paid to Swansea council since 1999? OAQ0846(EIN)

C13 Peter Black: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am faint o grant trafndiaeth a dalwyd i gyngor Abertawe er 1999? OAQ0846 (EIN)

Andrew Davies: We have allocated more than £44 million of transport grant resources to Swansea council during the period 1999-2000 to 2006-07.

Andrew Davies: Yr ydym wedi dyrannu dros £44 miliwn ar ffurf grantiau trafndiaeth i gyngor Abertawe yn ystod y cyfnod 1999-2000 i 2006-07.

Blaenoriaethau ar gyfer Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd Priorities for European Structural Funds

C14 Alun Ffred Jones: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru? OAQ0850(EIN) [W]

Q14 Alun Ffred Jones: Will the Minister make a statement on the Welsh Assembly Government's priorities for European structural funds in Wales? OAQ0850(EIN) [W]

Andrew Davies: Mae cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at drawsnewid economi Cymru drwy ei gwneud yn fwy cystadleuol a chynyddu cyflogaeth mewn busnes. Bydd rhaglenni'r gronfa strwythurol ar ôl 2006 yn canolbwyntio ar ymyriadau sy'n cefnogi twf a swyddi cynaliadwy, yn unol â strategaethau Lisbon a Gothenburg.

Andrew Davies: European structural funds are making an important contribution to the transformation of the Welsh economy by increasing business competitiveness and employment. The post-2006 structural fund programmes will focus on interventions that support sustainable growth and jobs, in line with the Lisbon and Gothenburg strategies.

Helpu Busnesau Bach Lleol Helping Small Local Businesses

Q15 Sandy Mewies: What action is the Welsh Assembly Government taking to help small local businesses prosper? OAQ0838(EIN)

C15 Sandy Mewies: Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i helpu busnesau bach lleol i ffynnu? OAQ0838(EIN)

Andrew Davies: We actively encourage local small and medium-sized enterprises that are seeking to prosper to access Business Eye for free information and signposting to the full range of business support provision.

Andrew Davies: Yr ydym yn annog mentrau bach a chanolig eu maint lleol sy'n ceisio llwyddo i gysylltu â Llygad Busnes am wybodaeth a manylion yn rhad ac am ddim am yr amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i helpu busnesau.

Cwestiynau i'r Trefnydd ar ei Chyfrifoldebau Heblaw am Fusnes Questions to the Business Minister on her Responsibilities other than for Business

Effaith Trais yn y Cartref ar Blant The Impact of Violence in the Home on Children

Q9 Ann Jones: What discussions has the Minister had with Ministerial colleagues in relation to addressing the impact of violence in the home on children? OAQ246(BM)
Transferred for written answer by the Minister for Social Justice and Regeneration.

C9 Ann Jones: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chyd-Weinidogion ynghylch rhoi sylw i effaith trais yn y cartref ar blant? OAQ246(BM)
Trosglwyddwyd i'w ateb yn ysgrifenedig y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.

The Minister for Social Justice and Regeneration (Edwina Hart): A key aim of the all-Wales domestic abuse strategy is to protect children from the impact of domestic abuse. It is an issue that cuts across many portfolios which is why the strategy has the support of my Cabinet colleagues.

Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart): Un o brif amcanion strategaeth cam-drin yn y cartref Cymru gyfan yw diogelu plant rhag effaith cam-drin yn y cartref. Dyma broblem sy'n torri ar draws sawl portffolio a dyna pam mae fy nghydweithwyr yn y Cabinet yn cefnogi'r strategaeth.

Y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005 The Disability Discrimination Act 2005

Q14 Carl Sargeant: How is the Welsh Assembly Government letting businesses know of their obligations under the Disability Discrimination Act? OAQ247(BM)

C14 Carl Sargeant: Sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi gwybod i fusnesau am eu dyletswyddau dan y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd? OAQ247(BM)

The Business Minister (Jane Hutt): In common with other legislation relating to businesses, the onus rests on business owners to determine their obligations under the Disability Discrimination Act 2005 themselves. The Assembly Government

Y Trefnydd (Jane Hutt): Yn unol ag enghreifftiau eraill o ddeddfwriaeth yn ymwneud â busnesau, cyfrifoldeb perchnogion busnes eu hunain yw penderfynu ar eu dyletswyddau o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005. Mae

actively encourages inquirers to contact Business Eye, which will signpost them to the small and medium-sized enterprise equality project or Disability Wales.

Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog y rhai sy'n holi i gysylltu â Llygad Busnes, a fydd yn eu cyfeirio at broses cydraddoldeb mentrau bach a chanolig neu Anabledd Cymru.